



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer dylunio gwasanaethau

Mae'r fframwaith syml hwn yn adnodd i helpu pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r ffyrdd o weithio sydd i'w gweld yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddylunio gwasanaethau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r sail ar gyfer annog math gwahanol o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gyda phum ffordd o weithio i lywio sut dylai gwasanaethau cyhoeddus weithio i gyflawni ar ran pobl:

- **Hirdymor:** pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- **Atal:** ystyried sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio:** ystyried sut gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio:** gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys:** pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Mae'r fframwaith ar y tudalennau canlynol yn disgrifio beth mae'r pum dull o weithio yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer dylunio gwasanaethau, gan nodi cyfres o gwestiynau i'w hystyried ochr yn ochr â phedwar cysyniad allweddol:

- **Darparu gwasanaeth integredig gyda phartneriaid er budd pennaf y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.**
- **Dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau fel partner cyfartal.**
- **Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, yn y man lle maent ei angen, ac am y cyfnod y maent ei angen.**
- **Dal ati i ddysgu, herio'n gadarnhaol a cheisio gwella.**

Gall y fframwaith gael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n dylunio a goruchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i annog pobl i feddwl, cael trafodaethau strwythuredig a gwneud penderfyniadau, am ddulliau newydd o weithio i sicrhau gwasanaethau sy'n wydn ac yn ceisio gwella llesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol.

Creu'r cysylltiadau: meddwl am sut mae'ch gwasanaeth yn cyfrannu at amcanion llesiant eich sefydliad a chynllun llesiant y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus:

- Sut mae'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr asesiad o lesiant lleol yr ardal?
- Sut mae'r gwasanaeth yn effeithio ar amcanion llesiant eich sefydliad, neu'n cefnogi'r amcanion hynny?
- Ydych chi'n deall sut mae'ch gwasanaeth yn effeithio ar y gwaith o gyflawni cynllun llesiant lleol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, neu'n cefnogi'r gwaith hwnnw?



## Hirdymor: pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dylunio gwasanaethau	Cwestiynau i'w hystyried
Dal ati i ddysgu, herio'n gadarnhaol a cheisio gwella	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ydych chi wedi nodi ac ystyried y tueddiadau hirdymor a allai effeithio ar eich maes gwasanaeth, pa effaith y gallai'r tueddiadau hyn ei chael ar eich gwasanaeth/y gallai'ch gwasanaeth ei chael ar y tueddiadau hyn, a beth sy'n cael ei wneud i ymateb i hyn? (Efallai bod y rhain yn hysbys ee poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n cael eu disbyddu, neu'r rheini sy'n fwy ansicr ee swyddi a sgiliau sydd eu hangen at y dyfodol.)</li> <li>• Oes ystod o dystiolaeth (yn cynnwys hanesion pobl a data eraill) yn cael ei chipio i brofi effeithiolrwydd y gwasanaeth (yn awr ac i'r dyfodol) mewn ffordd ystyrlon?</li> <li>• Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth (yn awr ac yn y dyfodol) a sut gellid eu goresgyn? A yw'r gwasanaeth yn edrych am gyfleoedd i ddysgu o arfer gorau mewn meysydd eraill a chysylltu â rhwydweithiau a all hwyluso dysgu ar y cyd?</li> <li>• Pa gyfleoedd sydd ar gael i'r darparwr gwasanaeth a sut gall wneud y defnydd gorau ohonynt?</li> <li>• A yw'r gwasanaeth yn rhoi cynnig ar atebion cyflawni arloesol i geisio sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol, dysgu ganddynt a symud ymlaen?</li> </ul>
Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, yn y man lle maent ei angen ac am y cyfnod y maent ei angen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'r darparwr gwasanaeth yn deall (ac yn rhagweld) sut gallai galw newid dros amser, ac yn gweithio gyda phartneriaid i'w ddeall yn fwy effeithiol?</li> <li>• A yw'r gwasanaeth yn ymdrin â'r angen neu'r symptom dybryd, heb fynd i'r afael â'r achosion craidd? Os felly, a ddeallir goblygiadau hirdymor dilyn y trywydd hwn?</li> <li>• A oes yna asesiad beirniadol priodol o angen; a yw barn broffesiynol a thystiolaeth yn llywio'r ymateb?</li> <li>• A yw'r darparwr gwasanaeth yn deall ac yn asesu a fydd ymyrryd yn arwain at ganlyniadau gwell yn yr hirdymor na pheidio ag ymyrryd o gwbl?</li> </ul>

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dylunio gwasanaethau	Cwestiynau i'w hystyried
Darparu gwasanaeth integredig gyda phartneriaid er budd pennaf y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'r gwasanaeth yn dibynnu ar gael ymyriadau eraill ar waith i fynd i'r afael ag achosion cylchoedd hirdymor?</li> </ul>
Dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau fel partner cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'r darparwr gwasanaeth yn deall beth sy'n bwysig i bobl, eu cryfderau a chryfderau'r cymunedau ehangach maent yn byw ynddynt – yn awr, a sut gallai hynny newid yn y dyfodol?</li> </ul>



**Atal:** ystyried sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

**Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dylunio gwasanaethau**

**Cwestiynau i'w hystyried**

Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, yn y man lle maent ei angen ac am y cyfnod y maent ei angen

- Wrth ddarparu gwasanaethau, a oes ffocws digon cryf ar atal problemau rhag codi neu waethygu, torri'r cylch a helpu pobl i osgoi argyfwng yn hytrach na chefnogi pobl mewn argyfwng?
- A ydych yn deall pa broblemau rydych chi'n ceisio'u hatal? Beth yw'r achosion craidd, sut gellid osgoi/unioni'r rhain? Pa mor gynnar all y gwasanaeth ymyrryd a sut gall y darparwr gwasanaeth feithrin gwydnwch?
- A ydych yn gweithio gyda phobl i leihau (neu roi diwedd ar) lefel yr ymyrraeth ym mywydau pobl dros amser lle bynnag y bo'n bosibl, gyda'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid?

Dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau fel partner cyfartal

- A yw'r gwasanaeth yn helpu pobl i ddechrau byw'n annibynnol yn hytrach na chreu dibyniaeth?
- A oes gennych hyblygrwydd i sicrhau bod yr ymyrraeth yn gweddu i anghenion ac amgylchiadau'r dinesydd ac yn osgoi niwed?

Dal ati i ddysgu, herio'n gadarnhaol a cheisio gwella

- A yw'r gwasanaeth yn ystyried sut gall leihau/datrys effeithiau negyddol a chael yr effeithiau mwyaf buddiol ar lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol?



**Integreiddio:** ystyried sut gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dylunio gwasanaethau	Cwestiynau i'w hystyried
Darparu gwasanaeth integredig gyda phartneriaid er budd pennaf y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw cyflawni yn cael ei weld gan bartneriaid fel rhan o 'system gyflawn' sy'n adlewyrchu llwybr llawn defnyddwyr drwy wahanol wasanaethau?</li> <li>• A yw'r darparwr gwasanaeth wedi ystyried sut mae'r gwasanaeth yn effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill (yn gadarnhaol neu'n negyddol)?</li> <li>• A oes dealltwriaeth o gydgyfrifoldeb am ganlyniadau ar draws gwasanaethau, gyda gwasanaethau wedi'u halinio i osgoi niwed anfwriadol?</li> <li>• Pa gamau ymarferol all y darparwr gwasanaeth eu cymryd i integreiddio'r gwasanaeth gyda chynlluniau strategaethau cyfredol ei hun neu gyrff cyhoeddus eraill, i gynyddu cyfraniad y gwasanaeth at bob un o'r saith nod llesiant?</li> </ul>
Dal ati i ddysgu, herio'n gadarnhaol a cheisio gwella	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A all y gwasanaeth ddangos gwelliant parhaus yn sgil myfyrio rheolaidd ac adolygu beirniadol?</li> <li>• A oes fframwaith a phroses gymesur ar waith ar gyfer asesu cydberfformiad, yn cynnwys o safbwynt dinesydd, ac a oes gennych chi drefniadau atebolrwydd i gefnogi hyn?</li> <li>• A allai fod gwrthdaro posibl gyda gwasanaethau neu gyrff cyhoeddus eraill wrth ddarparu gwasanaethau, a sut gallech chi geisio datrys, rheoli a lliniaru'r rhain?</li> </ul>



## **Cydweithio:** gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant

Darparu gwasanaeth integredig gyda phartneriaid er budd pennaf y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

- A yw partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd hyblyg, ar draws ffiniau sefydliadol, i ddarparu gwasanaeth di-dor i bobl?
- A ydych chi wedi nodi ystod lawn o bartneriaid, yn cynnwys sefydliadau o'r sector preifat neu'r trydydd sector, a allai chwarae rôl gynhyrchiol yn y maes gwasanaeth hwn?
- A yw'r darparwr gwasanaeth yn meddwl am (ac yn rhagweld) sut gallai galw newid dros amser ac yn gweithio gyda phartneriaid i'w reoli'n fwy effeithiol?
- A oes cydraddoldeb, ymddiriedaeth a gweledigaeth gyffredin rhwng partneriaid?
- A oes trefniadau cyfatebol ar draws gwasanaethau cyhoeddus (ee adnoddau a rennir, cyllidebau a rennir)?

Dal ati i ddysgu, herio'n gadarnhaol a cheisio gwella

- A yw arfer gorau'n cael ei rannu i leihau amrywiad ar draws sectorau lle mae'n briodol gwneud hynny?
- A yw llwyddiant yn cael ei ddathlu – o fewn y gwasanaeth ac ar draws partneriaid?



**Cynnwys:** pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu

Dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau fel partner cyfartal

- A ydych yn deall beth sy'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu cryfderau, a chryfderau cymunedau ehangach lle maent yn byw? Sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r angen am y gwasanaeth a sut mae'n cael ei ddarparu?
- A yw'r gwasanaeth yn ceisio manteisio ar gryfderau defnyddiwr gwasanaethau ac adeiladu arnynt?
- A yw'r gwasanaeth yn annog pobl i ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt eu hunain a'u gwelliannau eu hunain?
- A yw defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?
- A yw'r gwasanaeth yn ystyried y gefnogaeth a allai fod ar gael gan eraill yn y gymuned?
- A yw'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn cael ei deilwra i ddefnyddwyr gwasanaethau unigol, gan gydnabod y bydd gallu unigolion i ymateb yn amrywio?

Darparu gwasanaeth integredig gyda phartneriaid er budd pennaf y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

- A gaiff y system ei dylunio drwy ddealltwriaeth o sut mae dinasyddion yn ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus a'r canlyniadau maent yn eu ceisio?
- A yw'r gwasanaeth wedi'i ddylunio o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth, drwy ei gynnwys ac adlewyrchu amrywiaeth darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth?

Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, yn y man lle maent ei angen ac am y cyfnod y maent ei angen

- A yw pobl yn cael eu hannog i reoli *heb* ymyrraeth, lle bo'n briodol?
- A yw'r gwasanaeth yn gweithio gyda dinasyddion i egluro rôl gwahanol bartneriaid wrth ddarparu'r gwasanaeth, a rheoli disgwyliadau?

Dal ati i ddysgu, herio'n gadarnhaol a cheisio gwella

- A yw gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau'n gweithio fel partneriaid yn y busnes o wella?